## Atodiad 2: Matrics 1 – Matrics asesu

Matrics asesu enghreifftiol yw Matrics 2 sy'n darparu modd o grynhoi effeithiau cronnol niweidiol neu fuddiol posibl y prosiect â 'datblygiad arall'. Gellir ei ddefnyddio i ddangos bod dull systematig o gynnal Asesiad Effeithiau Cronnol (AEC) wedi cael ei ddefnyddio. Wrth groesgyfeirio i ddogfennau tystiolaeth i ategu'r casgliadau, dylid nodi'r ddogfen benodol a rhif yr adran/paragraff. Mae'r blychau a lenwyd isod yn dangos y math o wybodaeth y gellid ei chynnwys, a allai gael ei hategu gan asesiadau/atodiadau manylach fel y bo'r angen.

| Rhif | Haen | Cyfeirnod y Cais | Yr ymgeisydd ar gyfer 'datblygiad arall' a disgrifiad byr | Asesiad o'r effaith gronnol gyda Phrosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) | Mesurau lliniaru arfaethedig sy'n berthnasol i'r NSIP, gan gynnwys unrhyw raniad | Effaith gronnol weddilliol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Rhowch enw'r pwnc sy'n cael ei asesu'n gronnol* | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Rhif Adnabod i'w gopïo o Fatrics 1* | *Rhif Haen i'w gopïo o Fatrics 1* | *Manylion i'w copïo o Fatrics 1* | *Dylai'r manylion ychwanegu at y wybodaeth a ddarparwyd ym Matrics 1 a'r dystiolaeth a gasglwyd ar Gam 3 fel y bo'n berthnasol* | *Rhowch ddisgrifiad ac asesiad sylfaenol o effeithiau, gan groesgyfeirio i unrhyw wybodaeth fanwl a ddarparwyd mewn atodiadau ategol i'r AEC, lle y bo'n berthnasol. Nodwch unrhyw effeithiau cronnol arwyddocaol tebygol sy'n bosibl.* | *Amlinellwch unrhyw fesur(au) lliniaru arfaethedig i fynd i'r afael ag effaith/ effeithiau cronnol.*<br><br>*Croesgyfeiriwch i sut y bwriedir sicrhau'r mesurau lliniaru arfaethedig e.e. nodwch rif y gofyniad Gorchymyn Caniatâd Datblygu.*<br><br>*Rhowch ddatganiad ynglŷn â chyfraniad pob datblygiad arfaethedig at yr effaith gronnol. Os bydd datblygiadau'n cyfrannu'n gyfartal at effaith, fe allai fod yn rhesymol cynnig mesurau lliniaru a rennir.*<br><br>*Pe byddai datblygiad arall yn cyfrannu at y rhan fwyaf o effaith gronnol, fe allai fod yn briodol drosglwyddo prif faich mesurau lliniaru i'r 'datblygiad arall' hwnnw. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio hyn fel sail i osgoi'r angen i ddarparu mesurau lliniaru priodol yn unol â'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol, a disgwylir i fesurau lliniaru priodol ar gyfer effeithiau'r NSIP arfaethedig gael eu cynnwys yn nogfennau'r cais.*<br><br>*Amlinellwch unrhyw gynigion lliniaru ar y cyd a gyflawnwyd trwy ymgynghori â hyrwyddwyr y 'datblygiad arall'* | *Nodwch arwyddocâd gweddilliol yr effaith a ph'un a yw'n fuddiol neu'n niweidiol.*<br><br>*Rhowch sylwadau cryno ar effeithiolrwydd mesurau lliniaru e.e. os bydd mesurau lliniaru'n lleihau ond nid yn osgoi'r effaith neu os bydd yr effaith weddilliol yr un fath â'r effaith cyn mesurau lliniaru* |